

Hawddamor
Haf!

Willia



RHIF 446 MEHEFIN 2022 PAPUR MISOL CYMRAEG
50C ABERTAWE

Plac Cymraeg ar gartref Dylan Thomas

Ar Fai 13 cynhaliwyd seremoni dadorchuddio plac Cymraeg ar hen gartref Dylan Thomas yn Abertawe.

Mae'r ty, yn Cwmdonkin Drive yn yr Uplands, yn denu twristiaid o bob rhan o'r byd. Saesneg yn unig oedd y plac ar y ty hyd yn hyn.

Er mai yn Saesneg yr ysgrifennodd Dylan Thomas,, mewn cyfnod pan oedd gwrthdaro rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg, mae **tystiolaeth Cyfrifiad 1921 yn nodi'n glir bod y Dylan Thomas ifanc yn siarad Cymraeg, ac mae arlliw'r laith i'w weld yn llawer o'i waith.**

Roedd ei deulu yn Sir Gâr yn deulu Cymraeg. Bu fyw yn yr **Uplands nes bod yn 23 oed, ac yma yr ysgrifennodd rai o'i weithiau gorau.**

Y Cyn-Archdderwydd T. James Jones - Jim Parc Nest - a ddadorchuddiodd blac glas Cymraeg i nodi man geni'r bard.

Jim oedd prif symbylydd ymgyrch lwyddiannus i godi arian **am y plac newydd ar y tŷ yn Cwmdonkin Drive ble treuliodd Dylan Thomas ei flynyddoedd cynnar.**




Jim Jones, wrth gwrs, a drosodd y clasur Undermilk Wood i'r Gymraeg gyda'r teitl Dan y Wenallt. Mae **llawer o'r farn bod rhannau o'r cyfieithiad yn rhagori ar y gwreiddiol.**

Darllenodd pobl ifanc Ysgol Bryntawe ddarnau o waith **Dylan yn Gymraeg i'r dorf y tu allan i'r tŷ, a thynnu sylw i'w enw Glan-rhyd, a roddwyd arno gan dad Dylan i anrhydeddu ei ewyrth Gwilym Marles, gweinidog radical ac ymgyrchydd dros hawliau'r werin ar adeg rhyfel y degwm.**

Diolchodd yr awdur Alan Gibbard yn arbennig i Jim Parc **Nest, ac i berchennog y tŷ, Geoff Haden, am ei gefnogaeth frwdfrydig i'r fenter newydd yma.** Bydd y plac Cymraeg yn tanlinellu cysylltiad Dylan Thomas a'i deulu â'r Gymraeg, meddai..

Un o edmygwyr mawr Dylan Thomas oedd y llenor, Aneirin Talfan Davies, a oedd yn byw yn yr Uplands am gyfnod. **Cyfieithodd yntau'r gerdd 'Y Crwca yn y Parc', lle mae Dylan Thomas yn dwyn i gof un o'r cymeriadau a welai'n gyson ym Mharc Cwmdonkin.**



TAITH O DREFORYS I'R GOGLEDD

Biwmares ydy'r unig dref siatredig ym Môn. Ar ôl iddo adrodd ychydig o hanes y dre aeth ati i'n tywys o



Teithiodd 22 o'r aelodau ar daith estynedig i Ogledd Cymru gan aros yn nhre hynafol Caernarfon am bedair noson. Ar y ffordd, arhoswyd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth gan fanteisio ar y cyfle i weld yr arddangosfa ar hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, "A Oes Heddwch?"

Ymwelwyd â phentre Eidalaidd Portmeirion gan ddychwelyd i Gaernarfon heibio Beddgelert a Llanberis gan fwynhau golygfeydd godidog Eryri mewn heulwen braf. Treuliwyd dau ddiwrnod yn Sir Fôn. Gwelwyd tir diffaith Mynydd Parys a'i olion o'r mwyngloddio am gopr. Dilynwyd hyn gan ymweliad â "Deyrnas Copr" yn Amlwch, a nodi taw o borthladd y dre allforiwyd y copr crai oddi yno i Abergawe tua dau gan mlynedd yn ôl.

Ym mhentre Moelfre mae ganolfan yr "RNLI." Cawsom glywed am sefydlu'r ganolfan, hanes llongddyryliad y "Royal Charter" yn 1859, a stori bad achub y Moelfre a'r Cocsyn dewr Dic Evans a enillodd ddwy fedal aur wrth achub morwyr o'r "Hindlea" yn 1959 a'r "Nafsaporos" yn 1966. Yn Oriol Môn, Llangefni mae casgliad o waith arlunydd enwocaf Cymru, Kyffin Williams, a threuliwyd amser yno yn gwerthfawrogi ei waith a'r arddangosfeydd eraill yr oriel. Ger Brynsiencyn mae gweithdy Halen Môn a chawsom ein tywys trwy'r safleoedd cynhyrchu a storio gan glywed am orchestion y cwmni teuluol sydd yn allforio y cynnyrch ar draws y byd.

Yn nhre Biwmares roedd y darlledwr a chynhyrchydd Gari Pritchard yno i'n cwrdd. Ymfalchiodd yn y ffaith taw

gwmpas y dre ei hun. Mae Gari'n ysgrifennydd Band Pres Biwmares a chasom gyfle i alw mewn ar noson ymarfer gan glywed Gari a'r offerynwyr eraill yn ymarfer yn ystafell y band. Cawsom wledd o adloniant ar ddwy noson arall. Mae campau disgyblion Ysgol Glanaethwy yn adnabyddus led led Cymru a chawsom yr anrhydedd o ymweld â'r disgyblion yn ymarfer dan arweiniad eu hyfforddwyr Cefin a Rhian Roberts. Cawsom noson yn y Felinheli



gyda Emyr Davies, un o fechgyn Treforys sydd wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon, yn sgwrsio â Robot Powell am ei waith ym myd teledu. Daeth Geraint Lovgreen a'r Band, ar wahoddiad Emyr, i orffen noson hwyliog gyda chyflwyriad o'u caneuon difyr.

Wrth ddychwelyd I Dreforys arhoswyd am deirawr yn "Yr Ysgwrn" cartref Hedd Wyn sydd bellach yng ngofal Parc Cenedlaethol Eryri. Cawsom groeso yno, lluniaeth ysgafn, cyfle i fwynhau y cyfleusterau newydd ar y safle a thaith dywysedig o gwmpas cartref "Bardd y Gadair

Ddu".

CLEIF HARPWOOD

Cleif Harpwood oedd ein gwestai yng nghyfarfod mis Mai o'r Gymdeithas. Clywsom ei atgofion am gyfnod yn canu gydag "Ac Eraill" a "Edward H Dafis" a phwysleisiodd sut roedd ymdrech mudlad Adfer wedi dylanwadu ar eu cyfansoddiadau cerddorol yn 70au'r ugeinfed ganrif. Trwy gyflwyniad gwych a chymorth ffilm o'r caneuon "Tua'r Gorllewin," "Mr Duw" ag "Ysbryd y Nos," fe lwyddodd Cleif, yn ddeheuig, creu darlun o effaith mewnfudo o Lloegr ar gymunedau Cymreig y cyfnod; gan gymharu hyn â dig-



wyddiadau tebyg heddiw.

Mae ymweliadau'r haf ar y gorwel ond ar nos Fawrth Gorffennaf 5ed fe fyddwn yng Nghapel y Tabernacl am 6.30.y.h i fwynhau datganiad gan Huw Tregelles Williams ar organ y Tabernacl sydd yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni. Gwesteion ar y noson yw Cŵr Clwb Rygbi Treforys.

Mae manylion am gyfarfodydd y Gymdeithas ar gael oddi wrth David Gwyn John (01792 773507).

Wilia Mehefin

yng ngofal Mark Stonelake
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Anfonwch unrhyw beth a allai fod o
ddiddordeb i'n darllenwyr
ar gyfer y rhifyn mis Gorffennaf
erbyn Mehefin 24:

wilia@hotmail.co.uk

Rhifyn Gorffennaf yng ngofal
Heini Gruffudd



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Niwl Ddoe gan Geraint V. Jones,
£9.99. Barn Cylch Trafod Tŷ Tawe.
Marciau: rhwng 6 a 10.

“Llyfr swmpus i’w ddarllen ar wyliau neu pan mae Covid amoch chi!”
“Roedd y stori’n troi i sawl cyfeiriad, a sawl llinyn i’w ddilyn ar yr un pryd.”
“Wedi mwynhau; cymeriadau cryf, stori ddiddorol, lawn tensiwn.”

“Dyma’r pedwerydd llyfr imi ei ddarllen gan yr awdur hwn, a dw i wedi mwynhau pob un.”

“Mae dawn ysgrifennu gan yr awdur ac mae’n werth darllen y llyfr, dim ond i fwynhau’r iaith.”

“Efallai fod gormod o gymeriadau ac roedd sawl ffordd o’u henwi, felly roedd hynny’n ddryslyd ar adegau.”

“Doedd cymeriad Huw ddim wedi fy argyhoeddi o gwbl oherwydd yr holl bethau annoeth roedd e’n eu gwneud.”

“Roedd Huw yn rhyw fath o wrtharwr, ond yn anghredadwy fel cymeriad.”

“Roedd y berthynas rhwng y gwahanol genedlaethau’n ddryslyd, braidd.”

“I mi, roedd dyfais dyddiadur Aur braidd yn llafurus a diangen a dweud y gwir.”

“Darllenais y nofel yn gyflym ac ro’n i’n hoffi’r penawdau ar y penodau.”

“Roedd angen tynnu sawl rhan o’r nofel gan fod tipyn o ailadrodd yn digwydd o ran cynnwys y plot, e.e. pethau’n digwydd ac yna ailadrodd hynny mewn sgwrs yn syth wedyn.”

“Do’n i ddim yn deall pam roedd t.7 yn Saesneg i gyd; byddai modd cyfleu’r cynnwys yn Gymraeg, does bosibl?”

“Roedd ambell beth yn anghredadwy, mae’n rhaid dweud, yn enwedig tua’r diwedd.”

“Gorffennodd y nofel braidd yn rhy dwt.”

“Mewn ffordd, gallai’r awdur fod wedi dod â’r nofel i ben ar dudalen 138, ond roedd yn amlwg wedi gwneud plot ar bapur ac wedyn roedd angen gorfodi’r cymeriadau drwy’r plot, a dod â chymeriadau ‘*deus ex machina*’ er mwyn gwneud hynny. Roedd rhywbeth seicolegol anghywir am y ffordd y daethpwyd â phopeth i ben.”

Rydyn ni’n cwrrd ar ail nos Lun y mis am 7.30. Beth am ymuno â ni? Cysylltwch ag elin.angharad.meek@gmail.com

i gael rhagor o wybodaeth, neu dewch i Dŷ Tawe.

Y cyfarfod nesaf:
13 Mehefin *Trwy’r Darlun* gan Manon Steffan Ros, Y Lolfa, £5.95, hefyd ar gael fel e-lyfr (£4.99)

Bydd egwyl dros fisoedd yr haf, yna byddwn yn aildechrau drwy drafod cynhyrchion Eisteddfod Ceredigion 2022 ar 12 Medi (Y Fedal Ryddiaith) a 10 Hydref (Gwobr Goffa Daniel Owen).



ion 2022 ar 12 Medi (Y Fedal Ryddiaith) a 10 Hydref (Gwobr Goffa Daniel Owen).

Cefnogaeth o bedwar ban byd i Neges Heddwch mwyaf llwyddiannus pobl ifanc Cymru mewn 100 mlynedd

Mae Gareth Bale, Geraint Thomas, Michael Sheen ynghyd â rhai o sefydliadau rhyngwladol mwyaf y byd fel Greenpeace a Friends of the Earth ymhlith y rheiny sydd wedi dangos cefnogaeth i Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2022 pobl ifanc Cymru a ryddhawyd ar ffurf fideo gan Urdd Gobaith Cymru heddiw (dydd Mercher, 18 Mai).

Ysgrifennwyd y Neges Heddwch ac Ewyllys Da, ‘Yr Argyfwng Hinsawdd’, mewn cydweithrediad â myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth ar ran pobl ifanc Cymru. Mae neges eleni ar gael mewn 101 o ieithoedd, gan gynnwys iaith Arwyddo Prydain (BSL). I nodi canmlwyddiant yr Urdd, lanswyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2022 yng Nghanolfan Heddwch Nobel yn Oslo, Norwy, mewn digwyddiad arbenig yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford a’r myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth.

Bu’r sylw ar y cyfryngau cymdeithasol i’r ymgyrch yn cynyddu ac yn codi

momentwm trwy gydol y dydd, ac erbyn canol y prynhawn, roedd y Neges wedi cyrraedd pedwar ban byd, o Beriw i Zimbabwe, Fietnam i Seland Newydd a Moldova. Mae miloedd o ysgolion a sefydliadau ar draws y byd wedi cefnogi’r Neges, ynghyd â llu o gyrrff cenedlaethol a rhyngwladol, Prif Weinidogion ac enwogion fel ei gilydd. Mae nifer o wynebau enwog o dimau cyntaf menywod a dynion Cymdeithas Bêl-droed Cymru [wedi rhannu fideo cefnogo](#), lle mae Aaron Ramsey a Gareth Bale, dau o blith y 4 miliwn o gyn aelodau’r Urdd, yn dweud “mae’n amser deffro” i’r argyfwng hinsawdd. Dywedodd Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford oedd yn bresennol yn y digwyddiad heddiw: “Roedd yn anrhydedd bod gyda’r Urdd yng Nghanolfan Heddwch Nobel i rannu neges heddwch y canmlwyddiant gyda’r byd. Ar adeg pan mae heddwch y byd mewn cymaint o berygl ac wrth i ni weithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, nid yw gwaith a



neges yr Urdd erioed wedi bod yn fwy arwyddocaol.”

“Rydym yn estyn croeso cynnes iawn i’r Urdd i Ganolfan heddwch Nobel heddiw i ddathlu eu canmlwyddiant ac i rannu eu neges heddwch”, meddai Kjersti Fløgstad, Prif Gyfarwyddwr Canolfan Heddwch Nobel. “Mae’r argyfwng hinsawdd yn mynd law yn llaw gyda heddwch: mae’n un o’r bygythiadau a heriau mwyaf i ddiogelwch ein hoes. Mae hefyd yn bwnc ble mae lleisiau’r ifanc wedi bod ymhlith y cryfaf a’r pwysicaf, gyda’r genhedlaeth hon yn arwain y gad drwy ysgogi newid a gweithredu. Rydym ni angen ein pobl ifanc i ddweud wrth y byd “mae’n amser deffro”, meddai Fløgstad.

Pennaeth Newydd i Ysgol Gyfun Gŵyr

Longyfarchiadau i Mr Jeffrey Connick ar ei apwyntiad yn Brifathro newydd Ysgol Gyfun Gŵyr o Fis Medi 2022 ymlaen. Yn gynddisgybl



o Ysgol Gyfun Ystalyfera mae Mr Connick ar hyn o bryd yn gweithredu fel Pennaeth Gweithredol a hynny yn dilyn cyfnod helaeth iawn o ymroddiad i fywyd yr ysgol. Bu'n Bennaeth Hanes yr ysgol, cyn camu'n Bennaeth Cynorthwyol ac yn 2019 fe'i apwyntiwyd yn Ddirprwy Bennaeth. Jeffrey Connick fydd y pumed Prifathro yn hanes Ysgol Gyfun Gŵyr. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei rol gyffrous newydd a'r gwaith o arwain yr ysgol i'w chyfnod nesaf.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd – Gwaith Cartref

Profodd yr ysgol lwyddiant ysgubol yng nghystadlaethau Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych. Longyfarchiadau gwresog i'r isod:

- Barddoniaeth Bl.12 a 13: 1af i Elena Ruddy, 2il i Mirain Francis a 3ydd i Alys Jewell.
- Barddoniaeth o dan 25 oed: 1af i Elena Ruddy.
- Rhyddiaith Bl.7: 1af i Iolo Ruddy.
- Rhyddiaith Bl.9: 1af i Heledd Francis.
- Barddoniaeth Bl.10 ac iau: 2il i Owain Ruddy.
- Prosiect Gwyddoniaeth: Elena Ruddy.
- Cynnwys Digidol Bl.7-19 oed: 1af Owain Ruddy.
- Creu Gwefan Bl.7,8 a 9: 2il i Iolo Ruddy.
- Rhyddiaith dan 25 oed: 1af i Elena Ruddy.
- Dyma gerdd uddugol Elena (Barddoniaeth o

dan 25):
Rhyddid

Yn llachar lafnau arian
Y wawr, af i lawr at lan
y môr, a'r nos yn marw'n
y nen. Heibio i'r twyn hwn
Y sêr swatia'n dyner dan
Orwel Caswel, rôl cusan
Ola nos. Dan len y wawr
Anfad yw'r awyr enfawr.

Dŵr cynnes sy'n fanwesu -
Mae mwynder i'r dyfnder du
A'r heli dyrr hualau
Byw. Yn ehangder y bae,
Fe gaf, trwy ddihangfa gwyll,
Orffen bodolaeth gorffwyll.
Ddŵr Gwyr addawa'r gorriad,
A'r pen-draw a ddaw'n rhyddhad.

Yr Adran Addysg Gorfforol
Cynrychiolodd Jack ac Arthur Bl.8 Ysgolion
Abertawe yn Rownd Derfynol FA yng
Nghroesoswallt. Chwaraeon nhw yn erbyn
Caerdydd gan ennill 3-2. Pencampwyr yr ail
flwyddyn yn olynol.

Llongyfarchiadau mawr i Rosie Jones ar
ennill 11 o gapiau i Gymru yn chwarae hoci!



Ymdrech wych gan dîm pel-droed blwyddyn
11 yn rownd derfynol Plât Ysgolion Aber-
tawe. Colli 2-1 i Fryntawe yn y pendraw ar ôl
gêm gystadleuol iawn.
Longyfarchiadau i Sky, Grace a Rihanna am
gymryd rhan yn nhwrnament pel-rwyd cen-
edlaethol Cymru o dan 18.
Longyfarchiadau i Georgina Bl.11 am chwarae
ei gm pel-rwyd cyntaf i Gymru o dan 17!
Longyfarchiadau i Dylan Morgan am ennill
gwobr Jack O'Connell am berfformiad rhag-
orol ar y trac.
Da iawn i dim rygbi Bl.7 am ennill Plat Ysgol-

ion Abertawe trwy guro Pen yr Heil 36-12!!
Llwyddodd tim pel-rwyd Bl.7 i ennill Plat
ANTnetball!

Athletau a Chystadleuaeth y Sir :-
Tim bechgyn ifanc yr ysgol (blwyddyn 8 + 9)
yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim bechgyn canol yr ysgol (blwyddyn 10 +
11) yn ail ym mhencampwriaeth y sir.
Tim bechgyn hun yr ysgol (blwyddyn 12 +
13) yn drydydd ym mhencampwriaeth y sir.
Tim Merched ifanc yr ysgol (blwyddyn 8 + 9)
yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim Merched canol yr ysgol (blwyddyn 10 +
11) yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim merched hun yr ysgol (blwyddyn 12 +
13) yn drydydd ym mhencampwriaeth y sir.
Unigolion:-

Mae'r disgyblion canlynol wedi ennill lle yn
nhîm atletau Afan Nedd Tawe a fydd yn
cystadlu ym mhencampwriaeth Cymru yng
Nghaerdydd. Cawson eu dewis gan ei bod
wedi ennill eu camp/au unigol ym mhencam-
pwriaeth y sir.

Seren Anderson-James (Naid Polyn), Efa
Williams (Picell), Evan Godwin (100m), El-
gan Rice (Disgen), Maccsen Holland (Picell),
Breydon Morris-Carlyon (1500m), Oscar
Jones (Clwydi) i gyd am yr oed ifanc
(blwyddyn 8 ac 9)
Bethan Holley (Naid Hir a Naid uchel), Mai
Davies (1500m), Rosie Jones (Naid drifflyg),
Lili Ford (Pwys), Harrison Gorcia (200m a
400m), Christian Garcia (Niad Drifflyg), Jos-
hua Pritchard (1500m) i gyd am yr oed canol
(blwyddyn 10 ac 11).
Harrison Wheeler (400m), Owain Clarke
(400m Clwydi) ac Ella Davies (400m ac
800m) i gyd am yr oed hun (blwyddyn 12 ac
13).

Tim bechgyn ifanc yr ysgol (blwyddyn 8 + 9)
yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim bechgyn canol yr ysgol (blwyddyn 10 +
11) yn ail ym mhencampwriaeth y sir.
Tim bechgyn hun yr ysgol (blwyddyn 12 +
13) yn drydydd ym mhencampwriaeth y sir.
Tim Merched ifanc yr ysgol (blwyddyn 8 + 9)
yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim Merched canol yr ysgol (blwyddyn 10 +
11) yn ennill pencampwriaeth y sir.
Tim merched hun yr ysgol (blwyddyn 12 +
13) yn drydydd ym mhencampwriaeth y sir.

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2022

Cyd-weithiodd Gyngor Bl.8 i lunio fideo'n
dangos eu cefnogaeth o Neges Heddwch ac
Ewyllys Da yr Urdd 2022. Newid hinsawdd
oedd neges pobl ifanc eleni.

Dawnsywyr Treforys yn helpu'r Parc



Daeth parti dawns o Dreforys i ddathlu dyfodiad y gwanwyn mewn achlysur arbenig a drefnwyd gan Ffrindiau Parc Singleton yng nghanol Mis Mai.

Dyma oedd menter gyntaf y Ffrindiau, sydd wrthi'n codi arian ac ymwybyddiaeth am y Parc, sy'n wynebu nifer o heriau. Cewch ddarllen mwy am eu gwaith ar eu tudalen Facebook, 'Friends of Singleton Park / Ffrindiau Parc Singleton' - ac mae can croeso i bobl ymuno.

Mae'r grŵp Sweyns Ey Morris yn perfformio dawnsio Morys ledled yr ardal, ac roedd pawb yn rhyfeddu at eu hegni o dan yr haul cryf.

Fe'u ffurfiwyd yn wreiddiol yn Llanmadog **ym Mhenrhyn Gŵyr yn 1966, ac maen nhw'n dal i gadw traddodiadau'r ardal yn fyw, gan gynnwys hen ddrama mud-chwarae'r penrhyn.**

Bwyty Truffle – haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagor o esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Difyrion Digidol

Fe wnes i drafod yn y golofn ddiwethaf am y sesiynau hel atgofion y cynhaliwyd mewn cartrefi gofal cyn y pandemig. Y tro hwn dwi am drafod prosiect arall cyf-felyb sef y beic digidol.

Fe wnaeth Marc Davies o raglen Cymunedau Digidol Cymru fynd ati yn wreiddiol i adeiladu beic trwy ddilyn cyfarwyddiadau ar YouTube.com (mae YouTube gyda llaw yn wasanaeth amhrisiadwy fel canllaw i ddatrys problemau, adeiladu neu drwsio pob math o bethau!)

Mae'r beic digidol yn gymharol hawdd i'w adeiladu sy'n cynnwys beic ymarferer cyffredin ail law, cyfrifiadur rheoli sylfaenol Arduino, cebls i'w gysylltu trwy USB, botymau i reoli cyfeiriad, a glieniadur. Nid yw'n gofyn am arbenigedd mewn technoleg i allu adeiladu beic o'r fath! Yn ychwanegol, mae angen sgrin fawr, gall hwn fod yn daflunydd neu deledu clyfar. Y nod gyda beic digidol yw ysgogi ymarferer corff a sbarduno'r meddwl. Mae'r beic wedi cael ei gysylltu i Google StreetView ar y glieniadur ac mae posib pedlo eich hun ar hyd ffyrdd a heolydd Google i bedwar ban y byd.

Y cwestiwn cyntaf sydd gennym bob cyn iddynt ddechrau seiclo, **"Lle ydych chi isio mynd?"** Mewn un cartref henoed, roedd un yn awyddus i bedlo ar hyd ffyrdd troellog arfordir dramatig yr Amalfi yn yr Eidal am ei bod yn mynd ar wyliau yno yn gyson dros y blynyddoedd. Yr oedd un preswylwr arall am seiclo ar hyd Times Square Efrog Newydd!

Roedd rhai o'r preswylwyr yn byw gyda Dementia ac wrth ei bodd yn pedlo trwy ffyrdd cefn gwlad Ynys Môn yn hel atgofion am ei milltir sgwar. Pedlo yn ôl i'w

gorffennol i brofiadau hapus plentyndod - **"Dyna'r man lle oedden ni'n lluchio cerrig i'r afon.... A dwi'n cofio mynd ar beic ar hyd y ffordd yma pan oeddwn i'n 8 oed".** Roedd yr atgofion yn llifo ond roedd y corff hefyd yn cael ymarfer ar yr un pryd gan wella cylchrediad y gwaed. **I breswylwyr sy'n dioddef o ddiwyg symudedd o ddydd i ddydd, mae'r beic digidol yn ffordd o gadw'r corff yn actif. Gyda'r preswylwyr yn gaeth i'r cartref, yr hyn sy'n wych yw fod y beic yn galluogi iddynt brofi manau lle nad ydynt yn gallu ymweld yn gorfforol bellach.**

Yn nechrau 2020, gyda fy nghydweithiwr Simon Jones, a physio therapydd, Rakesh Kumar, cynigiwyd y syniad mewn cystadleuaeth ar gyfer Hacathon Lechyd Sefydliad Bevan ym Mharc Gwyddoniaeth MSPARC, Ynys Môn, ac fe ddaeth y syniad yn fuddugol gan ennill £7000 i ddatblygu'r syniad ymhellach. **O ganlyniad, daeth y beic digidol i sylw'r genedl pan gafodd ei ffilmio ar raglen Heno yng Nghartref Gofal Hafan Cefni, Llangefni, Ynys Môn.**

Yr ydym bellach wedi dechrau ailgyflwyno'r syniad i gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Ein bryd yw galluogi partneriaeth rhwng grwpiau cymunedol neu fyfyrwyr blwyddyn 11 ysgolion uwchradd lleol fel rhan o'r cwricwlwm i gydweithio i adeiladu beic ei hun ar gyfer cartrefi henoed. Gallwn fel rhaglen gynnig cyngor a chefnogaeth ar sut i adeiladu beic digidol a dangos sut y mae'r beic yn gweithio.



Os ydych chi'n athro neu'n athrawes mewn ysgol uwchradd neu'n gweithio mewn cartref gofal ac yn gweld cyfle yma i adeiladu beic a'l ddefnyddio mewn cartref gofal, gallwn eich rhoi ar ben ffordd, cysylltwch gyda mi dejan.apRhisart@wales.coop

Coleg Gŵyr Abertawe

LLWYDDIANT CENEDLAETHOL I FYFYRWYR YN YR URDD

Bu llwyddiant arbennig i'n myfyrwyr yng nghategoriâu Celf, Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar. Bydd y gwaith creadigol yn cael ei arddangos trwy gydol yr wythnos ym mhabell Gelf, Dylunio a Thechnoleg ar faes yr Eisteddfod.

Lluniadu 2D Bl.10 a dan 19 oed –
2^{ail} Lara Rees
3ydd Lilly James



Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed
2^{ail} Bethan Shirley
Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed -



3rd Hannah Hulatt
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed-
1^{af} Tomos Ayscough

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.10 a dan 19 oed-
2^{ail} Hannah Hulatt



Ffasiwn Bl.10 a dan 19 oed -
1^{af} Leala Twilley-Mills
3ydd Tomos Ayscough

Prosiect Gwyddonol Bl.10 a dan 19 oed
1^{af} Anwen Obrian
2^{ail} Jordan Liao

ILLongyfarchiadau mawr i'r holl fyfyrwyr uchod, sydd wedi llwyddo mewn cystadleuaeth uchel ei pharch. Ar ben hynny, diolch o galon i staff y coleg am baratoi ac anog eu myfyrwyr i gystadlu.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn cael ei

chynnal yn Sir Ddinbych, Gogledd Cymru yn ystod hanner tymor mis Mai. Estynnir gwahoddiad cynnes i fyfyrwyr fynychu Seremoni Wobrwyo arbennig ar faes yr Eisteddfod.
Prosiect Gwyddonol

Cynhelir y seremoni am 10 o'r gloch ar ddydd Gwener 3ydd o Fehefin ar Lwyfan Y Cyfrwy. Yno, byddant yn derbyn medal a thystysgrif.

Celf a Dylunio & Thechnoleg

Cynhelir y seremoni am 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn 4ydd o Fehefin ar Lwyfan yr Arddorfa. Yno, byddant yn derbyn medal a thystysgrif.

Grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg 2022/23

Mae Adran Addysg Abertawe'n cymryd rhan yng nghynllun Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y **staff sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**. Bydd modd i ysgolion rannu athrawon, a'r gobaith yw datblygu methodolegau ar draws ysgolion.

Caiff athrawon eu rhyddhau i ailhyfforddi os oes prinder mewn pynciau penodol. Bydd modd hefyd i athrawon y sector uwchradd gael seondiau i addysgu yn y sector cynradd a chaiff rhai sydd yn y sector Saesneg brofiad o weithio yn y sector Cymraeg.

Cyfanswm y gronfa ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yw £500,000. Golyga hyn fod y Llywodraeth yn chwilio am geisiadau am brosiectau bach y gellir ei cyflawni mewn blwyddyn.

Yr uchafswm sydd ar gael ar gyfer un ysgol yw £35,000. Gall ysgolion gydweithio i gronni adnoddau ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy.

Roedd modd i ysgolion wneud cais erbyn diwedd Mai.

Llanilltud Fawr — Ysbrydoliaeth

gan Rob Evans

Roedd amser yn mynd heibio a finnau heb setlo ar bwnc i ysgrifennu amdano'r mis yma, roedd fy mhen yn dioddef o fymryn bach o banig. Mae cael syniadau yn anodd pan mae rhywun yn y cyflwr yna. Ond ddoe roedd rhywbeth i edrych ymlaen ato - ar ôl dros ddwy flynedd o gyfyngiadau roedd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn ymweld ag eglwys Llanilltud Fawr. Dyna le oedd 'coleg' seintiau Sant Illtud yn y pumed a'r chweched ganrif. Roedd hyn yn mynd i fod yn ddi-ddorol.

Roedd llawer i'w weld, hen feini yn y cyntedd cerrig beddau ar y llawr ym mhob man, murluniau, delwau a chofeb wedi ei gerfio gan lolo Morgannwg. Wrth gwrs efo gymaint i'w weld mae'n rhaid cael rhywun gwybod i ddatgelu'r hanes ac roeddwn ni'n ffodus bod yr Athro Madelaine Gray yna i daflu golau ar bopeth. Hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg - plaser pur!
Diolch byth i Gymdeithas Hanes Bro

Ogwr!

Ond dysgwyr wnaeth sefydlu'r Gymdeithas a nid dim ond dysgwyr oedd yna, roedd cymysgedd dda o ddysgwyr a Chymry Cymraeg, tua 30



o bobl yn gyfan gwbl, pawb yn cymysgu, pawb yn adnabod ei gilydd.

Dyma oedd enghraifft dda o'r gwahaniaeth mae dysgwyr yn gallu gwneud i'n cymunedau. Faint o ardal oedd dros Gymru fyddai'n elwa o'r fath gymdeithas? Llawer iawn dw i'n

siŵr.

Ond mae'n gallu gweithio'r ffordd arall hefyd a does dim rhaid iddi fod yn gymdeithas hanes. Pa bynnag fath o gymdeithas dach

chi'n dewis mae'n rhaid i chi gael cylch o bobl o'ch cwmpas cyn i chi ddechrau. Un peth dw i'n gwybod yw bod dysgwyr yn frwdfrydig,

Maen nhw eisiau defnyddio'r iaith maen nhw wedi bod mor brysur yn dysgu. Cymerwch amser i

ddod i adnabod eich dysgwyr lleol, cysylltwch â'ch tiwtor lleol, trefnwch gael coffi efo nhw mewn caffi. Gofynnwch pa fath o gymdeithas a fydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Cofiwch, ar ddechrau'r cyfnod clo roedd 9,000 o bobl wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg – petaswn ni'n llwyddo i gael nhw i gyd i mewn i'n cymunedau Cymraeg byddai hynny'n gwneud lles mawr i'n hiaith annwyl. A'r bonws yw bydd mwyr eto yn cofrestru bob mis Medi!

Mae'n gyfle rhy bwysig i wastraffu!

SIOPA A SIOE YN LLUNDAIN
SHOPPING & SHOW IN LONDON

BL.8-12
YR.8-12

9/7/2022


Disney and CAMERON MACKINTOSH present **MARY POPPINS** £85

Dewch gyda ni i Lundain i gymdeithasu gyda'ch ffrindiau a mwynhau y sioe boblogaidd, Mary Poppins. Bydd y bws yn casglu'r bobl ifanc ar hyd yr M4 gan ddechrau ym Mhont Abraham am 6yb.

Come with us to London to socialise with friends and enjoy the popular show, Mary Poppins. The bus will collect the young people along the M4, starting in Pont Abraham at 6am.

Cofrestru / Register - <https://bit.ly/archebuiaic> - De Cymru

Am fwy o wybodaeth / For more info: niaeleri@urdd.org

 **100**
1922 - 2022

Cylch Cinio Abertawe

Croesawodd Cylch Cinio Abertawe y Prifardd **Christine James** i'w cinio ym mis Mai. Christine oedd y fenyw gyntaf i fod yn Archdderwydd Cymru, o 2013 tan 2016. Bellach hi yw Cofiadur yr Orsedd.

Ymysg ei chyhoeddiadau mae ei golgygiad o waith y bardd Gwenallt.

Ganed Christine yn Nhonypandy, ac ar ôl cael gradd dosbarth cyntaf yn

Aberystwyth, enillodd PhD am waith ar Gyfreithiau Hywel Dda.

Mae hi'n byw yng Nhaerdydd.

Enillodd y goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf, Rhwng y



Llinellau, yn 2013, ac enillodd y wobwr am y llyfr barddoniaeth gorau yn 2014.

Dewch i nabod Cadeirydd Ty Tawe:

DEWCH I NABOD... CATRIN ROWLANDS

Beth yw eich rôl chi yn Nhŷ Tawe?
Gwirfoddoli yn y bar a'r siop/siop siarad ac yn un o drefnwyr nosweithiau misol Tyrfe Tawe. Rydw i'n aelod o bwyllgor y Fenter ers sawl blwyddyn ac ers ambell wythnos, rwyf bellach yn Gadeirydd Tŷ Tawe!

Ers pryd ydych chi'n gwirfoddoli?
Ers 2001/2

Beth ddaeth â chi i gysylltiad gyda Tŷ Tawe gyntaf?
Nosweithiau cymdeithasol gwych Y Gym Gym, Cymdeithas Gymraeg Prifysgol Abertawe yn Nhŷ Tawe, ac yna ymuno â chôr Tŷ Tawe a mwynhau sawl taith fythgofiadwy yng nghwmni'r criwl!

Pam ydych chi'n mwynhau gwirfoddoli?
Cwrrd â chymaint o Gymry diddorol Abertawe.

Beth yw pwysigrwydd gwirfoddoli i chi?
Bod yn rhan o gymuned Gymsaeg ei hiaith, a'r teimlad hwnnw o berthyn, fel y teimlad hwnnw oedd gen i o berthyn i gymuned wrth gael fy magu yng nghanolbarth Cymru.